

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Northview, Bwrdd
Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Dyddiad yr arolygiad: 4 Mai 2022

Dyddiad cyhoeddi: 5 Awst 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac rydym yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu a defnyddio gwasanaethau a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom
2. Crynodeb o'r arolygiad
3. Yr hyn a ganfuom
 - Ansawdd profiad y claf
 - Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol
 - Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth
4. Y camau nesaf

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Atodiad C - Cynllun gwella

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn ar sut rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Northview, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 4 Mai 2022.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Sylwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau o'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd profiad y claf

Crynodeb cyffredinol:

[Gwelsom fod Practis Deintyddol Northview wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth cyfeillgar a phroffesiynol i'r cleifion.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y practis ar fin gwneud rhai newidiadau adeileddol ar ôl prynu'r adeilad cyfagos. Gwelsom fod newidiadau wedi'u gwneud i'r amgylchedd yn unol â chanllawiau'r llywodraeth i alluogi'r cleifion i gael eu trin yn ddiogel oherwydd y pandemig diweddar COVID-19. Gwelsom y staff yn cyfarch y cleifion mewn modd cyfeillgar yn bersonol ac ar y ffôn, a gwnaethom nodi bod cyfrinachedd ac urddas y cleifion yn cael eu cynnal bob amser.

] Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- [Gwneud "Cynnig Rhagweithiol" er mwyn annog y cleifion a allai ddymuno cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg i wneud hynny
- Arddangos gwybodaeth i annog cyfathrebu yn Gymraeg a sicrhau bod gwybodaeth ysgrifenedig ar gael yn ddwyieithog
- Cynnig gwybodaeth mewn amrywiaeth o fformatau hygyrch
- Ystyried gwella gofynion hygyrchedd ar gyfer mynediad i'r practis i'r cleifion ag anawsterau symudedd.]

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- [Gwelsom y cleifion yn cael eu trin mewn modd gofalgwr a phroffesiynol
- Gwelsom bolisi cwynion a oedd yn bodloni gofynion Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) a bod cwynion yn cael eu cofnodi a'u trin yn briodol mewn modd prydlon ac amserol
- Gwnaethom nodi bod y practis yn annog adborth ac wedi darparu tri dull gwahanol ar gyfer hyn, gan gynnwys blwch awgrymiadau wedi'i osod ar wal y dderbynfa, arolwg a gyrchir trwy god QR, ac ymgysylltu gweithredol ar sianeli cyfryngau cymdeithasol.
- Roedd y cleifion ag anawsterau symudedd nad oeddent yn gallu mynd i mewn i'r practis drwy'r drws ffrynt yn gallu cael mynediad drwy ddrws amgen dirisiau yng nghefn y practis.]

Gofal diogel ac effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

[Gwelsom fod angen gwelliant sylweddol yn y practis mewn nifer o feysydd sy'n ymwneud â safonau a rheoliadau atal a rheoli heintiau er mwyn sicrhau bod iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion yn cael eu hamddiffyn.

Gwnaethom nodi materion glanweithdra ac atal a rheoli heintiau o fewn ardaloedd a phrosesau clinigol y practis yr oedd angen rhoi sylw iddynt ar unwaith. Gwelsom nad oedd yr ystafell ddihalogi yn addas at y diben a'i bod yn peri risg sylweddol o groes-halogi. Yn ogystal, roedd droriau a oedd yn storio offer a deunyddiau deintyddol yn llychlyd ac wedi'u staenio'n drwm. Gwelsom hefyd fod lloriau mewn mannau clinigol heb eu selio'n ddigonol, a oedd yn peri risg bellach o haint i'r staff a'r cleifion.

Canfuom fod pob un o'r deg cofnod claf a adolygwyd gennym yn cael eu cynnal i safon ragorol. Roedd y nodiadau'n gryno, yn glir ac o ansawdd da ac yn cynnwys digon o wybodaeth am y cleifion. Roedd hanes meddygol, sgrinio canser y geg a chynlluniau triniaeth yn gyfredol ac yn gywir.

Yn ogystal, canfuom fod gan y practis asesiadau risg effeithiol ar waith yn ogystal â ffolder iechyd a diogelwch pwrpasol gyda pholisïau perthnasol a chyfredol i sicrhau iechyd a diogelwch y staff, y cleifion ac ymwelwyr â'r practis.]

Achosion o sicrwydd ar unwaith:

- [Canfuom nad oedd cyflwr yr offer a deunyddiau deintyddol yn yr ystafelloedd triniaeth a'r mannau clinigol, a'r trefniadau ar gyfer eu storio a'u hailbrosesu, ar hyn o bryd yn unol â'r canllawiau ar atal a rheoli heintiau ac nad oedd hyn yn amddiffyn y staff a'r cleifion rhag y risgiau o gael haint sy'n gysylltiedig â gofal iechyd
- Daethom o hyd i offer deintyddol wedi'u difrodi a'u torri gan gynnwys offeryn Luxator a chanddo handlen wedi'i thorri a'i chracio'n wael a llafn wedi'i ddifrodi. Roedd y rhain ar gael i'w defnyddio mewn gweithdrefnau llawdriniaeth y geg (echdyniadau)
- Roedd eitemau glân y bwriadwyd eu defnyddio yn cael eu storio'n rhydd mewn droriau a oedd yn llychlyd, wedi'u staenio ac yn cynnwys malurion ac nad oeddent mewn pecynnau di-haint fel sy'n ofynnol gan Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05
- Offerynnau sy'n cael eu defnyddio nad oedd wedi'u dihalogi'n ddigonol, gan gynnwys offeryn a ddefnyddiwyd mewn mân lawdriniaethau'r geg a oedd yn cynnwys tystiolaeth o ddeunydd gwyn o driniaeth ddeintyddol flaenorol

- Y defnydd o dâp adnabod offeryn ar offer llawfeddygol nad yw'n caniatáu ar gyfer glanhau a dihalogi priodol rhwng pob defnydd claf
- Selio annigonol o amgylch lloriau mewn mannau clinigol
- Diffyg parthau digonol o ardaloedd “glân” a “budr” dynodedig o fewn ardaloedd clinigol, ynghyd â thystiolaeth o groesi drosodd dro ar ôl tro rhwng pob un. Roedd hyn yn cynnwys un ystafell driniaeth y canfuwyd ei bod yn storio offer deintyddol halogedig o fewn blwch cludo uwchben eitemau glân ar drol ddeintyddol y clinigydd a fwriadwyd at ddefnydd cleifion ac a oedd yn ymyl y sinc golchi dwylo
- Nifer annigonol o sinciau o fewn ystafelloedd triniaeth i ganiatáu ar gyfer cynnal hylendid dwylo effeithiol. Roedd y rhain hefyd wedi'u lleoli mewn ardaloedd a fyddai'n gyfagos i neu'n cael eu defnyddio fel parthau “budr” yn yr ystafelloedd triniaeth
- Eitemau anghlinigol oedd wedi'u gosod mewn mannau trin, gan gynnwys planhigyn artiffisial o fewn ardal yr effeithir yn uniongyrchol arni gan weithdrefnau cynhyrchu aerosol ac wrth ymyl system hidlo aer
- Gwelsom fod amgylchedd yr ystafell ddihalogi yn anniben ac nad oedd wedi'i gynnal a'i gadw mewn modd a oedd yn caniatáu safonau glanweithdra a hylendid priodol. Roedd y silffoedd yn yr ystafell ddihalogi wedi eu difrodi a'u dirywio'n ddrwg, gan amlygu'r deunydd mandyllog oddi tano. At hynny, roedd eitemau y nodwyd eu bod yn lân yn cael eu storio islaw eitemau yr oedd angen eu dihalogi, gan gynyddu'r risg o groes-halogi eitemau glân. Gwelsom nad oedd gan yr ystafell ddihalogi unrhyw lif gwaith clir o fannau “budr” i fannau “glân”.

Mae'r practis wedi rhoi manylion i ni am y camau a gymerwyd / sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â'n canfyddiadau ar frys, ac rydym wedi'n sicrhau bod trefniadau addas wedi'u rhoi ar waith mewn perthynas â'r materion a nodir uchod.]

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- [Cael gwared ar y biniau offer miniog a gwastraff gypswm o ardal y gegin, lle cawsant eu pentyrru o flaen allanfa dân
- Cael ail swyddog cymorth cyntaf cymwys i sicrhau bod swyddog cymorth cyntaf cymwys bob amser yn bresennol yn y practis yn ystod oriau gweithredu
- Gosod diffoddwyr tân yn sownd i'r waliau]

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- [Roedd cofnodion y cleifion a adolygwyd yn ardderchog gyda hanes a chynlluniau triniaeth yn cael eu diweddarau'n rheolaidd
- Rhoddwyd taflenni gwybodaeth i'r cleifion am y triniaethau a drafodwyd yn ystod eu hapwyntiadau]

- Cael cydsyniad gwybodus ar gyfer pob un o'r cofnodion cleifion y gwnaethom eu hadolygu.]

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

[Gwelsom y staff yn cydweithio'n dda o dan arweiniad a rheolaeth rheolwr practis proffesiynol ac effeithlon. Roedd yn ymddangos bod pob aelod o staff yn ymroddedig i ddarparu safonau uchel o ofal i'w cleifion.

Gwelsom fod y practis wedi'i drefnu'n dda a bod polisïau a gweithdrefnau ar waith a oedd yn bodloni'r safonau a'r rheoliadau ar gyfer practisau deintyddol preifat yng Nghymru. Roedd dogfennau'n ymwneud â gwybodaeth staff yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol i sicrhau bod y staff yn addas i weithio yn y practis.

Gwelsom dystiolaeth o arfarniadau staff a gwblhawyd yn ddiweddar ac roedd cofnodion hyfforddiant yn gyflawn ar gyfer yr holl staff.

Gwelsom fod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd, eu bod yn cael eu cofnodi a'u bod ar gael i'r staff eu gweld. Gwelsom fod y staff yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn cyfarfodydd a chyfrannu at eitemau ar agenda'r cyfarfod.]

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- [Sicrhau bod gan yr holl staff sgiliau, gwybodaeth a hyfforddiant priodol ar gyfer cynnal bywyd sylfaenol
- Cael gwiriadau manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer yr holl staff sydd â chyswllt uniongyrchol â'r cleifion a/neu fod eu ffeiliau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd
- Sicrhau bod archwiliad rhoi'r gorau i ysmegu yn cael ei ailadrodd yn rheolaidd fel rhan o'r cylch archwilio parhaus.]

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- [Mae rheolaeth ac arweinyddiaeth effeithiol gan reolwr y practis a'r rheolwr cofrestredig yn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau proffesiynol i sicrhau gofal o ansawdd uchel i'r cleifion
- Mae'r staff, sy'n gweithio'n dda fel tîm, yn galluogi'r practis i redeg yn effeithlon
- Roedd polisïau a dogfennau'r practis yn gyfredol ac yn foddhaol.]

Rhoddir manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau uniongyrchol a'r camau unioni sydd eu hangen yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a ganfuom

Ansawdd profiad y claf

Adborth cleifion

Cyn ein harolygiad, gwnaethom wahodd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Derbyniwyd cyfanswm o 26 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd mwyafrif (21) yr holiaduron a gwblhawyd gan gleifion a oedd wedi bod yn glaf yn y practis am fwy na dwy flynedd.

Roedd rhai o'r sylwadau a ddarparwyd gan y cleifion ar yr holiaduron yn cynnwys:

“Mae'r tîm yn wych, bob amser yn gwneud popeth o fewn eu gallu i helpu.”

“Dwi wedi cael nifer o faterion ... a dwi bob amser wedi cael fy ngweld pan fydda i'n galw am apwyntiadau brys. Mae pob deintydd dwi wedi'i weld ar gyfer yr apwyntiadau hyn wedi bod yn hyfryd ac yn fwy na pharod i helpu.”

“Gwasanaeth eithriadol a fyddwn i ddim yn mynd i unman arall!”

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r lleoliad wella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu. Roedd rhai sylwadau a dderbyniwyd yn cynnwys:

“Noson yr wythnos o bosibl ar gyfer apwyntiadau gwirio arferol ar gyfer y cleifion hynny sy'n gweithio.”

“Hoffwn i pe bai'r apwyntiadau 8am yn dechrau am 8am ... dydyn nhw byth yn dechrau'n brydlon ac rydw i'n aml yn hwyr i'r gwaith. Rwy'n deall bod pethau'n digwydd weithiau a bod traffig yn gallu cael effaith, ond mae hyn yn digwydd i bob apwyntiad 8am.”

“Ar adegau prysur, gallu gadael neges ar beiriant ateb iddyn nhw ein galw'n ôl yn hytrach na deialu am oesoedd.”

“Mwy o ddeintyddion.”

Cadw'n iach

Hybu, diogelu a gwella iechyd

[Gwelsom y newidiadau a wnaed i amgylchedd y practis oherwydd COVID-19. Er mwyn amddiffyn rhag y risg a achosir gan y feirws, gwelsom fod sgriniau wedi'u gosod wrth ddesgiau'r dderbynfa i amddiffyn y staff a'r ymwelwyr. Roedd peiriannau dosbarthu gel alcohol wedi'u gosod mewn lleoliadau strategol ledled y practis, a gwelsom aelodau o dîm y dderbynfa yn annog y cleifion ac ymwelwyr i'w defnyddio wrth ddod i mewn i'r practis.

Gwelsom hefyd y cleifion yn cael cyfres o gwestiynau sgrinio COVID-19 gan dderbynyddion y practis ac roedd arwydd ar ddrws y practis yn atgoffa'r cleifion i wisgo gorchuddion wyneb tra yn y practis yn unol â chanllawiau cyfredol y llywodraeth.

Gwelsom fod y dderbynfa a'r mannau aros yn rhydd rhag annibendod, yn olau ac yn cael digon o awyr. Roedd y cadeiriau a oedd yn bresennol yn y mannau aros wedi'u gosod ar wahân i'w gilydd yn briodol a'u gorchuddio â chynfasau plastig i alluogi glanhau effeithiol.

Gwelsom fod arwyddion 'Dim Ysmygu' wedi'u harddangos ym mhob rhan o'r practis.

Roedd enw'r practis i'w weld yn glir wrth ddynesu at yr adeilad. Roedd enwau a chymwysterau'r deintyddion a'r hylenwyr a oedd yn gweithio i'r practis yn cael eu harddangos yn unigol ar blaciau enwau pres ar lefel y llygaid wrth ymyl y drws ffrynt. Roedd oriau agor a'r rhif ffôn brys hefyd wedi'u harddangos.

O'r 26 o gleifion a gwblhaodd holiadur, dywedodd 25 fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw am sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.]

Gofal ag urddas

Cyfathrebu'n effeithiol

[Dywedodd pob un o'r 26 o gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn teimlo bod y staff yn y practis yn eu trin ag urddas a pharch. Dywedodd bron pob un o'r 26 o ymatebwyr i holiadur AGIC eu bod yn teimlo bod y tîm deintyddol wedi eu helpu i ddeall yr holl opsiynau oedd ar gael ar gyfer triniaeth pan oedd ei hangen arnynt.

Gwelsom y staff yn darparu gofal i'r cleifion mewn modd urddasol a pharchus, a siaradwyd â'r cleifion mewn ffordd gyfeillgar a chymwynasgar. Cadwyd drysau i'r

ystafelloedd triniaeth ar gau yn ystod triniaethau ac roedd gwydr barugog ar y ffenestri i gynnal urddas.

Dywedodd staff y dderbynfa wrthym y byddai sgysiau preifat neu sensitif yn cael eu cynnal mewn ystafell driniaeth. Roeddent yn gwrando ar negeseuon peiriant ateb drwy glustffonau ffôn.

Er bod y practis yn darparu cyflenwad da o wybodaeth i gleifion, canfuom nad oedd gan y practis wybodaeth ar gael mewn braille neu mewn fformat hawdd ei ddarllen. Ychydig iawn o wybodaeth oedd ar gael yn ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod Cymraeg achlysurol yn cael ei defnyddio yn y practis pan oedd yn briodol. Fodd bynnag, nid oedd y practis yn darparu ‘Cynnig Rhagweithiol’ o ran y Gymraeg. Mae hyn yn golygu nad oedd y cleifion y gallai fod yn well ganddynt gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu hannog i wneud hynny. Roedd yn gadarnhaol nodi bod un o'r deintyddion yn y practis yn dysgu Cymraeg.

Cawsom ein sicrhau wrth ganfod bod y practis yn defnyddio gwasanaeth cyfieithu dros y ffôn ar gyfer y cleifion sy'n siarad ieithoedd eraill. Darparwyd hyn gan y bwrdd iechyd lleol.]

Gwybodaeth i gleifion

[Gwelsom fod taflenni gwybodaeth i gleifion wedi'u tynnu o'r man aros a bod gwybodaeth yn cael ei darparu yn lle hynny ar sgrin deledu fawr ac ar bosteri wedi'u lamineiddio a'u harddangos ar hysbysfyrdau. Pe bai angen gwybodaeth ysgrifenedig ar y cleifion i fynd adref â nhw, defnyddiodd y practis raglen negeseua gwib i roi gwybod i dîm y dderbynfa er mwyn iddynt ei darparu i'r cleifion wrth adael y practis.

Canfuom fod manylion taliadau am driniaeth GIG yn ogystal â ffioedd preifat hefyd wedi'u harddangos yn y man aros ochr yn ochr â Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol. Roedd tystysgrifau cofrestru AGIC wedi'u harddangos yn nerbynfa'r practis, ac roedd y rhain ar gael yn ddwyieithog. Roedd y rhain wedi'u harddangos ochr yn ochr â thystysgrifau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y gweithwyr deintyddol proffesiynol sy'n gweithio i'r practis.

Darparodd rheolwr y practis y datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion diweddaraf i ni fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Roedd y rhain yn cynnwys yr holl wybodaeth a nodir yn y rheoliadau ac a adolygwyd yn ddiweddar. Roedd y ddwy ddogfen ar gael ar gais gan y cleifion i gydymffurfio â'r gofynion cynyddol (atal a rheoli heintiau) oherwydd COVID-19.]

Gofal amserol

Mynediad amserol

[Gwelsom fod y practis yn gweithio'n galed i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin mewn modd amserol. Dywedwyd wrthym y gellid trefnu apwyntiadau dros y ffôn neu drwy system archebu ar-lein. O'r 26 a ymatebodd i'r holiadur, teimlai 25 ei bod o leiaf yn 'weddol hawdd' cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

Dywedwyd wrthym y byddai naill ai'r deintydd neu aelod o staff y dderbynfa yn hysbysu'r cleifion am unrhyw oedi.

Dywedodd 23 o'r 26 o gleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol brys y tu allan i oriau pe bai ei angen arnynt ar gyfer problem ddeintyddol frys.]

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

[Gwnaethom adolygu cofnodion deintyddol deg claf, ac roedd gan bob un dystiolaeth o gynllunio triniaeth priodol.

Dywedodd pob claf fod y gweithiwr deintyddol proffesiynol a oedd yn eu trin wedi gwirio am newidiadau i'w hanes meddygol cyn dechrau triniaeth.

]

Hawliau pobl

[Gwnaethom nodi bod gan y practis bolisiau ar waith sy'n ymwneud â chyfleoedd cyfartal, cydraddoldeb ac amrywiaeth i sicrhau bod hawliau dynol y cleifion a'r staff yn cael eu cynnal. Roedd y polisiau hyn wedi'u hadolygu a'u diweddarau'n ddiweddar. Ar ddiwrnod ein hymweliad, gwelsom y staff yn gofyn i'r cleifion am eu rhagenwau dewisol.

Dywedodd mwyafrif y cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo y gallent gael mynediad at y gofal iechyd cywir ar yr amser cywir.

Gwelsom fod gan y practis ddwy ystafell driniaeth ar lawr daear y practis yn ogystal â thoiled i'r anabl. Roedd arwyddion ar gyfer y toiled ac roedd canllawiau cydio ynddo i gynorthwyo'r cleifion ag anawsterau hygyrchedd. Ar adeg yr arolygiad, roedd y toiled wedi'i gyfyngu i'r staff neu at ddefnydd brys yn unig, er mwyn cydymffurfio â chyfyngiadau'n ymwneud â'r pandemig.

Roedd gofyn i'r cleifion ddringo gris bach i gael mynediad at brif fynedfa'r practis. Er bod mynedfa heb risiau ar gael i gefn yr adeilad, efallai nad yw'r cleifion yn ymwybodol o hyn, mae AGIC yn argymhell bod y practis yn gwneud hyn yn glir i bobl sy'n mynd i mewn i'r adeilad]

Gwranddo a dysgu o adborth

[Gwnaethom nodi bod y practis yn arddangos copi o'i weithdrefn gwyno yn yr ystafell aros, a oedd yn cynnwys y cynnwys priodol o ran amserlenni ac uwchgyfeirio cwynion.

Rhoddwyd cofnodion cwynion inni a oedd yn cael eu cadw'n gyfredol ac mewn ffolder bwrpasol. Gwelsom dystiolaeth o gamau gweithredu manwl ac ymatebion a gymerwyd i ddatrys pryderon y cleifion.

Fe'n hysbyswyd bod adborth i'r practis yn cael ei groesawu trwy ddulliau megis ymgysylltu â'r cyfryngau cymdeithasol, arolygon a gyrchir trwy god QR pwrpasol ac adborth personol a ddarperir i staff y practis. Roedd adborth y cleifion yn cael ei archwilio'n rheolaidd, a chwblhawyd yr archwiliad diweddaraf yn 2021, a oedd yn cynnwys adborth cadarnhaol gan y cleifion.]

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod adeilad y practis ar fin cael gwaith adeiladu ac adnewyddu helaeth er mwyn adnewyddu'r holl ystafelloedd triniaeth presennol yn llwyr, creu estyniad i mewn i'r eiddo cyfagos a chreu ystafell ddihalogi newydd. Roedd yn ymddangos bod yr adeilad presennol wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, ac roedd sawl rhan o'r practis wedi'u hadnewyddu'n ddiweddar gyda lloriau, cadeiriau deintyddol ac arwynebau gwaith newydd.

Fodd bynnag, canfuwyd mannau o fewn yr adeilad yr oedd angen eu gwella. Gwelsom nad oedd lloriau mewn rhai mannau wedi'u selio a bod bylchau lle'r oeddent yn cwrdd â'r waliau. Nodwyd gennym hefyd faterion glanweithdra yn ymwneud â'r ystafell ddihalogi a nifer o'r ystafelloedd triniaeth. Ers ein hymweliad, rydym wedi cael cadarnhad gan y rheolwr cofrestredig bod y materion hyn wedi cael sylw. Nid oedd y cleifion wedi dweud wrthym fod ganddynt bryderon ynghylch glendid y practis.

Roedd y staff yn defnyddio ardal swyddfa ar lawr cyntaf yr adeilad i newid i mewn ac allan o'u gwisgoedd. Roedd yr ystafell hon hefyd yn cael ei defnyddio fel ystafell stoc a gofod swyddfa ar gyfer rheolwr y practis.

Gwelsom fod arwyddion ar gyfer allanfeydd tân ac roedd y practis wedi gosod arwyddion 'Dim Ysmygu' ar draws mannau aros t cleifion. Gwelsom hefyd fod y practis wedi arddangos tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyflogwr ddilys yn y dderbynfa a phoster iechyd a diogelwch.

Gwelsom fod gan y practis asesiadau risg effeithiol ar waith yn ogystal â ffolder iechyd a diogelwch bwrpasol gyda pholisïau i sicrhau iechyd a diogelwch y staff, y cleifion ac ymwelwyr â'r practis.

Gwelsom fod gan y practis asesiad risg tân dilys, a bod polisïau a gweithdrefnau ar waith, ac roedd ymarferion tân a phroffion offer yn cael eu cynnal a'u cofnodi'n rheolaidd. Gwelsom fod yr holl staff wedi ymgymryd â hyfforddiant tân yn ddiweddar. Gwelsom nifer digonol o ddiffoddwyr tân o'r math cywir wedi'u lleoli ym mhob rhan o'r practis, ac roedd y rhain wedi cael eu cynnal a'u cadw'n rheolaidd.

Fodd bynnag, canfuom nad oedd dau ddiffoddwr tân ar lawr cyntaf y practis wedi'u gosod yn ddiogel ar y wal. Gallai hyn fod yn berygl i'r cleifion ifanc ac rydym yn argymhell bod y rheolwr cofrestredig yn mynd i'r afael â hyn er mwyn atal niwed.

Gwelsom fod y staff yn cael defnyddio cegin fechan ar lawr daear yr adeilad. Roedd hwn yn cynnwys oergell fechan a nwyddau gwynion eraill. Fodd bynnag, canfuom fod yr ystafell hon hefyd yn cael ei defnyddio fel cyfleuster storio ar gyfer biniau offer miniog llawn wedi'u selio a chynwysyddion gwastraff gypswm a oedd wedi'u pentyrru o flaen yr allanfa dân gefn. Mae'r biniau hyn yn cynnwys eitemau clinigol sy'n peri risg o haint i'r staff ac ni ddylid eu storio mewn man lle caiff bwyd ei baratoi a'i storio. Yn ogystal, gallai pentyrru eitemau yn union o flaen allanfa dân rwystro dihangfa ddiogel pe bai tân.

Gwelsom fod gan y practis asesiad risg COVID-19 ar waith a bod yr holl staff wedi cynnal asesiadau risg COVID-19 unigol.

Roedd y cwpwrdd o dan y grisiau yn cynnwys storfa anhrefnus a blêr o ystod o eitemau gwahanol. Roedd y rhain yn cynnwys sugnwr llwch, mopiau a bwcedi a deunyddiau glanhau ynghyd â brwsys dannedd a chegolchion ar gael i'r cleifion eu prynu. Ni ddylid storio eitemau glanhau gydag eitemau y gall y cleifion eu prynu i gynorthwyo â hylendid y geg.]

Atal a rheoli heintiau

[Gwelsom fod gan y practis nifer o bolisiau a gweithdrefnau ar waith a oedd yn rhan o'u gweithdrefnau atal a rheoli heintiau. Roedd y rhain yn cynnwys hylendid dwylo, gwaredu gwastraff clinigol ac amserlenni glanhau. Roedd gan y practis hefyd bolisiau penodol ar waith i liniaru'r risgiau a berir gan COVID-19.

Roedd y practis wedi penodi'r brif nyrs yn arweinydd dihalogi ar gyfer y practis. Gwelsom fod archwiliad Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn cael ei gwblhau'n flynyddol a bod yr holl staff wedi cael yr hyfforddiant atal a rheoli heintiau diweddaraf. Yn ogystal, roedd yr holl staff clinigol wedi darparu tystiolaeth foddhaol o imiwnedd hepatitis B.

Gwelsom fod y practis hefyd yn defnyddio system o offer miniog diogel i roi pigiadau anesthetig lleol. Roedd hyn yn golygu bod y staff yn llai tebygol o ddioddef anaf nodwydd a dangosodd fod y practis yn dilyn canllawiau arferion gorau.

Rhoddwyd llyfrau cofnodion i ni ar gyfer y peiriannau awtoclaf a'r glanhawyr uwchsonig a gwelsom eu bod yn cael eu cwblhau'n rheolaidd. Gwelsom hefyd y staff yn gwisgo'r cyfarpar diogelu personol cywir drwy gydol diwrnod yr arolygiad.

Fodd bynnag, nodwyd diffyg systemau effeithiol i atal a rheoli lledaeniad heintiau. Ni chaiff AGIC ei sicrhau bod y gwasanaeth wedi cynnal safonau atal a rheoli heintiau priodol mewn perthynas â mannau clinigol y safle, offer deintyddol y gellir eu

hailddefnyddio a deunyddiau deintyddol a ddefnyddir at ddiben cynnal practis deintyddol preifat.

Yn benodol, gwelsom nad oedd cyflwr yr offer a deunyddiau deintyddol yn yr ystafelloedd triniaeth ddeintyddol a'r mannau clinigol, a'r trefniadau ar gyfer eu storio a'u hailbrosesu, yn unol â chanllawiau cyfredol ar atal a rheoli heintiau. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Offer deintyddol wedi'u difrodi a'u torri gan gynnwys offeryn Luxator a chanddo handleu wedi'i thorri a'i chracio'n wael a llafn wedi'i ddifrodi. Roedd y rhain ar gael i'w defnyddio mewn gweithdrefnau llawdriniaeth y geg (echdyniadau)
- Roedd eitemau glân y bwriadwyd eu defnyddio yn cael eu storio'n rhydd mewn droriau a oedd yn llychlyd, wedi'u staenio, yn cynnwys malurion ac nad oeddent mewn pecynnau di-haint fel sy'n ofynnol gan reoliadau atal a rheoli heintiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05
- Offerynnau sy'n cael eu defnyddio nad oedd wedi'u dihalogi'n ddigonol, gan gynnwys offeryn a ddefnyddiwyd mewn mân lawdriniaethau'r geg a oedd yn cynnwys tystiolaeth o ddeunydd gwyn o driniaeth ddeintyddol flaenorol
- Defnydd parhaus o dâp adnabod offer deintyddol ar offer llawfeddygol nad yw'n caniatáu ar gyfer glanhau a dihalogi priodol rhwng pob defnydd claf
- Diffyg parthau digonol o ardaloedd glân a budr dynodedig o fewn ystafelloedd triniaeth ddeintyddol ynghyd â thystiolaeth o groesi drosodd dro ar ôl tro rhwng pob un
- Nifer annigonol o sincipiau o fewn ystafelloedd triniaeth i ganiatáu ar gyfer cynnal hylendid dwylo effeithiol. Roedd y rhain hefyd wedi'u lleoli mewn ardaloedd a fyddai'n gyfagos i neu'n cael eu defnyddio fel parthau budr mewn ystafelloedd triniaeth a chanddynt arwynebau gwaith a/neu ofod cyfyng
- Eitemau anghlinigol oedd wedi'u gosod mewn mannau trin, gan gynnwys planhigyn artiffisial o fewn ardal yr effeithir yn uniongyrchol arni gan weithdrefnau cynhyrchu aerosol ac wrth ymyl system hidlo aer.

Roedd yr ystafell ddihalogi yn cynnwys silffoedd anniben a oedd wedi'u diraddio a'u difrodi'n ddrwg, gan amlygu'r deunydd mandyllog nad oedd yn caniatáu glanhau effeithiol. Ar ben hynny, roedd eitemau y nodwyd eu bod yn lân yn cael eu storio islaw eitemau yr oedd angen eu dihalogi, gan gynyddu'r risg o halogi eitemau glân. Roedd peiriannau awtoclaf yn cael eu storio uwchben lefel y llygaid ac yn union uwchben sinc a ddefnyddir i lanhau offer deintyddol â llaw.

Gwelsom nad oedd digon o sincipiau mewn sawl man clinigol i ganiatáu ar gyfer cynnal hylendid dwylo effeithiol. Gwelsom fod un ystafell driniaeth yn cynnwys bath diheintydd a ddefnyddiwyd ar gyfer dihalogi argraffiadau deintyddol uwchben yr unig sinc a oedd yn bresennol yn yr ystafell driniaeth. Roedd y sinc hwn hefyd yn cael ei

ddefnyddio fel sinc golchi dwylo ac felly roedd yn risg amlwg i iechyd y cleifion a'r staff.

O ganlyniad i'n canfyddiadau, gofynnwyd am sicrwydd ar unwaith gan y rheolwr cofrestredig ynghylch y camau gweithredu i fynd i'r afael â'r meysydd sy'n peri pryder. Gwnaethom hyn drwy ddyroddi hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio i'r practis. Ers hynny, rydym wedi derbyn manylion y gwelliannau a wnaed sydd wedi rhoi sicrwydd i ni fod systemau a phrosesau addas wedi'u rhoi ar waith.]

Rheoli meddyginiaethau

[Gwelsom fod gan y practis bolisi rheoli meddyginiaethau ar waith. Roedd y polisi hwn yn cynnwys gweithdrefnau a phrosesau i sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu trin, eu cofnodi, eu defnyddio a'u storio'n ddiogel.

Gwnaethom adolygu'r cyffuriau a'r offer brys yn y practis a chanfod eu bod yn cael eu storio'n briodol mewn man a oedd yn hygyrch i'r staff.

Roedd gan y practis daflenni cofnodion a oedd yn cofnodi gwiriadau rheolaidd ar y cyffuriau a'r offer brys, ac yn cadw cofnod o ddyddiadau dod i ben yr eitemau hyn. Cwblhawyd y rhain yn llawn. Fodd bynnag, canfuom fod y practis yn dewis cynnal y gwiriadau hyn bob mis. Mae canllawiau Cyngor Dadebru'r DU yn nodi y dylid cwblhau'r gwiriadau hyn bob wythnos. Tynnwyd sylw'r rheolwr cofrestredig a rheolwr y practis at hyn yn ystod yr arolygiad, ac aethpwyd i'r afael â hyn.

Dywedwyd wrthym fod y glwcagon a ddefnyddir mewn achos brys yn cael ei gadw mewn oergell glinigol ddynodedig yn swyddfa rheolwr y practis.

Gwelsom mai dim ond un swyddog cymorth cyntaf dynodedig oedd gan y practis. Nid oedd hyfforddiant ar gyfer yr unigolyn hwn wedi'i gwblhau'n flynyddol a chafodd ei gwblhau ddiwethaf yn 2019. Dylai fod ail swyddog cymorth cyntaf cymwysedig i sicrhau bod swyddog cymorth cyntaf cymwys bob amser yn bresennol yn y practis yn ystod oriau gweithredu]

Diogelu plant a diogelu oedolion mewn perygl

[Gwelsom fod yr holl staff clinigol wedi cael hyfforddiant cyfredol ar ddiogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Dywedwyd wrthym fod gan y practis ddau arweinydd diogelu dynodedig. Cawsom dystiolaeth o hyfforddiant ar lefel briodol i gyflawni'r rôl hon yn effeithiol.

Gwelsom dystiolaeth fod gan y practis bolisiau diogelu ar waith. Ategwyd y rhain gan siartiau llif wedi'u lleoli mewn lleoliadau staff yn unig ar wahân ac ynddynt fanylion

cyswllt yr awdurdod lleol. Dywedwyd wrthym, pe bai angen cymorth ar aelod o staff pe bai'n gweld digwyddiad lle'r oedd angen ymyriad gan y tîm diogelu, y byddai rheolwr y practis a'r rheolwr cofrestredig yn rhoi hyn yn rhydd.

Gwelsom fod bron pob aelod o staff wedi cwblhau gwiriadau manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y gweithlu plant ac oedolion yn foddhaol. Fodd bynnag, dim ond gwiriad sylfaenol yr oedd un aelod o staff â chyswllt â chleifion wedi'i gwblhau. Yn ogystal, er bod y rhan fwyaf o wiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cwblhau o fewn y pum mlynedd diwethaf, roedd un aelod o staff wedi cwblhau ei wiriad bron chwe blynedd yn ôl. Roedd y practis hefyd yn gofyn am bolisi a oedd yn amlinellu'r broses i sicrhau bod gwiriadau addasrwydd i weithio yn cael eu hailadrodd.]

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

[Gwelsom fod yr ystafelloedd triniaeth yn cynnwys offer priodol ar gyfer diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol. Gwelsom fod y staff wedi'u hyfforddi'n ddigonol i ddefnyddio'r offer. Amlygwyd hyn yn rhestrau gwirio'r cyfnod sefydlu ar gyfer dechreuwyd newydd a staff asiantaeth. Gwnaethom adolygu'r trefniadau sydd ar waith i sicrhau bod offer radiograffeg yn cael eu defnyddio'n ddiogel a chanfuwyd bod y rhain yn cydymffurfio'n llawn. Gwelsom fod gan y practis yr holl ddogfennau a gwybodaeth angenrheidiol a'u bod yn gyfredol.

Gwelsom fod yr holl staff clinigol wedi dilyn hyfforddiant ar Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 a oedd wedi'i gwblhau o fewn y pum mlynedd diwethaf. Gwelsom hefyd dystiolaeth o archwiliad radiograffeg wedi'i gwblhau a oedd yn dangos cydymffurfiaeth bellach â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 a gofynion monitro sicrwydd ansawdd.]

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

[Gwelsom fod gan y practis drefniadau ar waith ar gyfer derbyn, asesu, gwneud diagnosis a thrin y cleifion. Gwelsom fod y prosesau hyn wedi'u nodi yn natganiad o ddiben y practis, y daflen wybodaeth i gleifion ac mewn polisïau a gweithdrefnau ychwanegol a oedd ar gael i ni.

Gwelsom dystiolaeth y byddai'r staff yn cael arweiniad a chynghor proffesiynol pan fo angen a byddent yn defnyddio hwn i ddiweddarau polisïau'r practis. Amlygwyd hyn gan weithdrefn weithredu safonol gyfredol a oedd wedi'i llywio gan y canllawiau diweddaraf a gyhoeddwyd gan Brif Swyddog Deintyddol Cymru.]

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

[

Gwelsom fod y practis yn cynnal gweithgarwch archwilio yn rheolaidd i sicrhau gwella parhaus a sicrwydd ansawdd ac i sicrhau bod y gwasanaeth yn darparu gofal da i'w gleifion. Gwelsom dystiolaeth o archwiliadau a gwblhawyd gan gynnwys rhagnodi gwrthficrobaidd, radiograffeg a chadw cofnodion. Roedd y rhain wedi'u cwblhau'n ddiweddar ac yn nodi meysydd i'w gwella a chymau priodol i fynd i'r afael â nhw.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y practis yn defnyddio dull y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth a'r Adnodd Hunanwerthuso Optimeiddio Sgiliau (SOSET). Darparwyd hwn gan Ddeoniaeth Cymru er mwyn annog datblygiad y practis, yn ogystal â'r offeryn sicrwydd ansawdd a diogelwch ar gyfer practisau deintyddol cyffredinol a ddarperir gan y bwrdd iechyd.

Gwelsom archwiliad rhoi'r gorau i ysmygu a gwblhawyd yn 2019 a byddem yn argymhell i hyn gael ei ailadrodd fel rhan o'r cylch archwilio parhaus.

]

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

[Gwelsom fod gan y practis bolisi cyfrinachedd staff ar waith a'i fod yn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

Roedd cofnodion deintyddol cleifion yn cael eu storio'n electronig ac yn ddiogel ac yn unol â pholisi rheoli cofnodion priodol. Roedd mynediad at gofnodion deintyddol cleifion trwy system wedi'i diogelu gan gyfrinair.

Roedd ffolderi personol y staff a oedd yn cynnwys gwybodaeth sensitif a chyfrinachol, hefyd yn cael eu storio'n ddiogel yn swyddfa rheolwyr y practis er mwyn atal mynediad anawdurdodedig.]

Cadw cofnodion

[

Fel rhan o'r arolygiad, gwnaethom adolygu deg set o gofnodion cleifion. Daeth hyn i'r casgliad bod safon cadw cofnodion yn uchel ac i safon dda iawn. Roedd y nodiadau yn glir ac yn cynnwys digon o wybodaeth.

Gwelsom fod hanes cymdeithasol y claf, gan gynnwys cymeriant alcohol a'r defnydd o dybaco, wedi'i gymryd i nodi risgiau cynyddol o ganser y geg a bod hanes meddygol yn cael ei ddiweddararu ar bob cwrs o driniaeth. Roedd cydsyniad gwybodus wedi'i gofnodi ar gyfer pob set o gofnodion a adolygwyd gennym, a nodwyd opsiynau triniaeth. Gwelsom hanes deintyddol, y rheswm dros fynychu, a nodwyd gwybodaeth adalw hefyd.

Cadarnhawyd ein hasesiad o'r cofnodion deintyddol a adolygwyd gennym gan archwiliad cadw cofnodion diweddar.

]

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Y prif ddeintydd a pherchennog y practis oedd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am reoli'r practis, a hwn oedd y rheolwr cofrestredig. Cafodd ei gefnogi yn y rôl hon gan reolwr practis ymroddedig a brwdfrydig. Ar adeg ein hymweliad, roedd gan y practis bum deintydd hefyd yn darparu gwasanaeth deintyddiaeth ac roedd yn bractis sy'n cynnig hyfforddiant ar gyfer deintyddion newydd gymhwyso. Yn cefnogi'r deintyddion roedd tîm o wyth nyrs ddeintyddol (gan gynnwys un nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant), dau dderbynnwyd a dau hylenydd deintyddol. Roedd pob un yn darparu gofal a oedd o fewn eu cwrmpas ymarfer ac yn unol ag amodau cofrestru ag AGIC.

Gwelsom fod y tîm yn cydweithio'n dda ac yn cyfathrebu effeithiol ac yn parchu ei gilydd. Roedd yr arweinyddiaeth a ddarparwyd gan reolwr y practis a'r rheolwr cofrestredig yn glir ac yn arwain at bractis effeithlon a oedd yn cael ei redeg yn dda.

Gwelsom fod gan y practis ystod o bolisiau a gweithdrefnau a oedd yn berthnasol i'r practis ac a oedd ar gael i'r holl staff.

Fel y rheolwr cofrestredig, y prif ddeintydd oedd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am gyflwyno hysbysiadau i AGIC.

Gwelsom dystiolaeth o gyfarfodydd tîm rheolaidd a oedd yn cael eu cynnal yn y practis. Cawsom dystiolaeth o gofnodion y cyfarfodydd hyn a gallem weld bod camau priodol wedi'u cymryd ar rai materion a chatau gweithredu a godwyd. Fodd bynnag, gofynnwyd am un mater, sef yr amser a oedd ar gael i ganiatáu gweithdrefnau dihalogi digonol ar gyfer offer deintyddol rhwng cleifion, mewn sawl cyfarfod yn olynol. Rydym wedi cael sicrwydd ysgrifenedig gan y practis y bydd aelod ychwanegol o staff yn cael ei recriwtio ac y bydd mwy o amser rhwng cleifion yn cael ei roi ar waith.]

Y gweithlu

Dywedwyd wrthym am y broses a gynhaliwyd gan y practis i recriwtio staff newydd. Dywedodd rheolwr y practis wrthym am y polisiau sydd ar waith i gefnogi cyflogaeth a sefydlu dechreuwyr newydd. Byddai dechreuwyr newydd yn cael eu cyflogi ar gyfnod prawf chwe mis cychwynnol gydag adolygiadau pellach pe bai materion perfformiad yn cael eu nodi. Byddai swyddi gwag yn cael eu hysbysebu ar wefannau cyfryngau cymdeithasol neu drwy asiantaethau recriwtio deintyddol.

Dywedwyd wrthym mai anaml y defnyddid staff asiantaeth yn y practis. Pe bai eu hangen, byddai cydymffurfedd â gofynion cofrestru'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cael ei wirio gan yr asiantaeth a byddai cadarnhad wedyn yn cael ei roi i'r practis. Byddai cyfnod sefydlu yn cael ei roi i staff asiantaeth er mwyn cadw at bolisiau a gweithdrefnau'r practis.

Gwelsom fod ffeiliau staff cynhwysfawr yn cael eu cadw gan gynnwys manylion arfarniadau, gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, contractau cyflogaeth ac imiwnedd hepatitis B. Dywedwyd wrthym fod y staff nyrsio yn cael yswiriant indemniad drwy'r prif ddeintydd.

Roedd yr holl staff deintyddol cymwys wedi'u cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roeddent yn cydymffurfio â gofynion datblygiad proffesiynol parhaus. Roedd tystysgrifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cael eu cadw yn ffeiliau personol y staff er mwyn sicrhau bod y cofrestriad yn parhau.

Roedd gan y practis bolisi chwythu'r chwiban ar waith. Dywedwyd wrthym fod y staff yn gallu mynd at y rheolwr cofrestredig neu reolwr y practis yn gyfrinachol pe bai ganddynt unrhyw bryderon.

Gwelsom fod arfarniadau'n cael eu cynnal yn rheolaidd, a dim ond y staff hynny sydd ar hyn o bryd ar gyfnod o wyliau oedd heb gael arfarniad blynyddol eto.

Gwelsom dystiolaeth o dystysgrifau hyfforddiant ar gyfer y staff ac roedd cydymffurfedd â hyfforddiant gorfodol yn dda. Roedd pob aelod o staff ac eithrio dau wedi derbyn hyfforddiant ar gyfer cynnal bywyd sylfaenol, ac roedd trefniadau i un aelod newydd o staff fynychu hyfforddiant cynnal bywyd sylfaenol ym mis Mehefin.

Roedd cymorth iechyd meddwl a llesiant ar gael i'r staff drwy linell gymorth iechyd meddwl bwrpasol a ddarperir gan wasanaeth cydymffurfio a gyflogir gan y practis. Yn ogystal, roedd gan y practis aelod o staff a oedd wedi dilyn hyfforddiant cymorth cyntaf iechyd meddwl.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym am yr hyfforddiant a gwblhawyd ganddo i sicrhau ei fod yn gallu rheoli'r practis deintyddol yn effeithiol. Cyflawnwyd hyn trwy ddysgu yn y gweithle, cydweithio â chymheiriaid, a chymorth gan gymheiriaid a rheolwyr cofrestredig eraill a drwy fynychu gweminarau.]

Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch y cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion lle rydym am i'r gwasanaeth lunio cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym am i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Datgan yn eglur sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pryd yr aethpwyd i'r afael â'r rhain

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon dybryd a nodwyd	Effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Gwnaethom ganfod bod gwiriadau ar gyffuriau ac offer a ddefnyddir mewn achosion brys yn cael eu cynnal yn fisol yn hytrach nag yn wythnosol.	Gallai methu â gwirio'n aml ac yn rheolaidd bod cyffuriau ac offer a ddefnyddir mewn achosion brys ar gael, roi iechyd a llesiant y cleifion a'r staff mewn perygl, oherwydd efallai na sylwir am beth amser bod angen newid eitem benodol.	Gwnaethom hysbysu'r rheolwr cofrestredig a rheolwr y practis am ein canfyddiadau a gofyn iddynt newid amllder y gwiriadau o bob mis i bob wythnos.	Newidiodd rheolwr y practis yr amllder gwirio o bob mis i bob wythnos a lluniodd restr wirio newydd i ystyried hyn.

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Practis deintyddol Northview, Caerffili

Dyddiad yr arolygiad: 4 Mai 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diffyg cydymffurfio mewn perthynas â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maent yn eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud y canlynol: - Sicrhau bod gan y practis ystafell ddihalogi lle y gellir creu parthau yn effeithiol a chreu llif gwaith clir er mwyn symud o fannau budr i fannau glân mewn modd na fydd yn caniatáu halogi a thraws-heintio. - Sicrhau bod droriau a chabinetau mewn ardaloedd clinigol yn lân ac yn rhydd o lwch a gweddillion. Rhaid symud eitemau sy'n cael eu storio'n rhydd mewn droriau neu gabinetau ar hyn o bryd a'u storio yn y modd a nodir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 i atal y risg o haint i gleifion. - Gwaredu offer a chyfarpar deintyddol sydd wedi torri neu sydd wedi'u difrodi rhag eu defnyddio a'u taflu ar unwaith.	Rheoliad 13 (6)(ab) a Rheoliad 13(5)(ab) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	- Mae gan yr ystafell ddihalogi system barthau mwy effeithiol a llif gwaith clir er mwyn symud o fannau budr i fannau glân fel nad yw'n caniatáu halogi neu groes-heintio. Cyflawnwyd hyn drwy arweiniad cefnogol a roddwyd gan AGIC a'r bwrdd iechyd lleol nes y bydd ein hystafell ddihalogi newydd yn barod ym mis Gorffennaf, yn unol â'n cynlluniau i ymestyn ac adnewyddu adeiladau'r practis. - Mae'r holl ddroriau a'r cabinetau yn yr ardaloedd clinigol yn lân. Gwaredwyd pob un o'r hen fewnosodiadau	Andrew Sullivan	Gweithredwyd pob pwynt o fewn 24 awr, i sicrhau bod y practis yn cydymffurfio'n llawn cyn gynted â phosibl. Mae ystafell ddihalogi newydd sbon a mwy o faint yn cael ei gosod ym mis Gorffennaf. Mae gwaith adnewyddu'r ystafelloedd triniaeth eisoes ar y gweill a

• Cael gwared ar dapiau lliw adnabod offerynnau ‘Tape n Tell’ a rhoi'r gorau i'w defnyddio ar unwaith a dihalogi'n llwyr yr holl offer sydd wedi eu heffeithio. • Sicrhau bod nifer digonol o sinciau ar gael mewn ardaloedd clinigol sydd wedi'u neilltuo ar gyfer golchi dwylo yn unig a sicrhau nad ydynt wedi'u lleoli mewn ardaloedd y gellir eu hystyried fel parthau “budr • Sicrhau bod lloriau mewn mannau clinigol wedi'u selio'n ddigonol er mwyn iddynt gael eu glanhau'n effeithiol. • Cael gwared ar yr holl eitemau diangen o'r ardaloedd clinigol • Caniatáu digon o amser i lanhau a diheintio offer deintyddol yn drylwyr.		plastig gwyn a oedd wedi eu staenio gan ddeunyddiau deintyddol. Mae eitemau untro wedi'u gosod mewn cydau. Mae pob ystafell driniaeth yn cael ei hadnewyddu'n llwyr dros y tri i chwe mis nesaf ac mae un eisoes wedi'i chwblhau'r mis hwn • Mae unrhyw offer sydd wedi torri neu wedi'u difrodi wedi'u gwaredu ar unwaith, ac mae archwiliad llawn a thrylwyr wedi'i gynnal o'r holl offer i sicrhau nad oes unrhyw offer arall sydd wedi'u difrodi yn parhau i gael eu defnyddio. • Nid yw tâp adnabod offer ‘Tape n tell’ yn cael ei ddefnyddio bellach • Mae nifer digonol o sinciau ar gael yn yr ardaloedd clinigol sydd wedi'u neilltuo ar gyfer golchi dwylo yn unig. Rydym wedi darparu tybiau a blychau ychwanegol ym mhob ystafell driniaeth i gludo offer wedi'i halogi i'r ystafell ddihalogi, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw groeshalogi o fewn ardaloedd clinigol. Fel y crybwyllwyd, roedd y gwaith o adnewyddu pob ystafell driniaeth i'r safon uchaf eisoes wedi'i gynllunio		bydd yn cael ei gwblhau dros y chwe mis nesaf.
--	--	---	--	---

		cyn yr arolygiad ac mae eisoes ar y gweill. Bydd gan yr ystafelloedd triniaeth sinc ychwanegol yr un, gan ganiatáu un fydd wedi'i neilltuo ar gyfer ymolchi dwylo yn unig, ac un arall ar gyfer glanhau offer ac argraffion (mowldiau) deintyddol - Mae'r lloriau ym mhob ardal glinigol wedi'u selio'n ddigonol â seliwr i ganiatáu iddynt gael eu glanhau'n effeithiol. Ar ôl adnewyddu'r ystafelloedd triniaeth, bydd gan bob ystafell loriau â chorneli ceugrwm a fydd yn caniatáu'r glanhau mwyaf effeithiol - Mae unrhyw eitemau diangen wedi'u symud o'r ardaloedd clinigol - Rydym wedi penodi dau aelod newydd o staff; nyrs ddeintyddol brofiadol gymwys a nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant. Bydd hyn yn caniatáu i nyrs ddihalogi bwrpasol weithio yn yr ystafell ddihalogi yn unig, gan ganiatáu i'n nyrsys deintyddol eraill aros yn eu hystafelloedd		
--	--	---	--	--

		triniaeth penodol. Mae amseroedd apwyntiadau hefyd wedi'u hymestyn i ganiatáu mwy o amser ar gyfer glanhau a dihalogi'n drylwyr.		
--	--	--	--	--

Ymatebion i bryderon penodol eraill:

Er mwyn osgoi'r posibilrwydd o groeshalogi offerynnau glân o'r peiriant awtoclaf, byddwn nawr yn llwytho'r offer glân yn syth o'r awtoclaf i mewn i flychau wedi'u glanhau a'u diheintio a fydd wedyn yn cael eu selio. Bydd y blychau hyn wedyn yn cael eu trosglwyddo i'r ystafell driniaeth i'r parth glân, lle bydd yr offer yn cael eu rhoi mewn bag/cwdyn. Mesur dros dro fydd hwn nes y bydd yr ystafell ddihalogi newydd wedi'i gorffen. Mae'r ffan yn tynnu'r aer o'r ystafell o safle sydd uwchben yr ardal fudr.

Y sinc golchi dwylo fydd yr unig un yn yr ystafelloedd triniaeth heb fowlen blastig. Byddwn yn cludo unrhyw argraffion deintyddol/offer budr yn syth i'r blwch 'budr' i'w olchi a'i lanhau yn y sinc budr yn yr ystafell ddihalogi. Bydd hyn yn atal unrhyw halogi rhag digwydd. Mae hwn eto yn fesur dros dro nes y bydd pob ystafell driniaeth wedi'i hadnewyddu ac yn cynnwys dwy sinc.

Rydym wedi sicrhau bod y staff yn deall yr holl arwyddion yn llwyr. Mae'r holl staff wedi eu hyfforddi a'u haddysgu bod y parth gwyrdd yn 'lân' a'r parth coch yn 'fudr' i wneud yn siŵr nad oes unrhyw ddryswch. Fel rhan o'r cyfnod sefydlu i staff newydd neu staff asiantaeth, bydd hyn yn cael ei egluro er mwyn osgoi dryswch.

Bydd yr holl eitemau untro yn cael eu rhoi mewn cydau sterileiddio unigol a'u selio nes iddynt gael eu defnyddio. Bydd darnau o'r driliau deintyddol hefyd yn cael eu selio yn yr un modd.

Enw (llythrennau bras):	Andrew Sullivan
Rôl:	Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad:

25/5/22

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth:

Practis deintyddol Northview, Caerffili

Dyddiad yr arolygiad:

4 Mai 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod "Cynnig Rhagweithiol" o ran y Gymraeg yn cael ei ddarparu er mwyn sicrhau bod y cleifion hynny sy'n dymuno cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn gallu gwneud hynny.	3.1 Gofal diogel a chlinigol effeithiol Rheoliad 13 (1)(a) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Mae gennym aelod newydd o staff y dderbynfa sy'n siarad Cymraeg yn rhugl yn dechrau gyda ni ym mis Awst. Mae un o'n deintyddion hefyd yn dysgu Cymraeg. Mae gennym arwydd yn y dderbynfa yn rhoi gwybod i gleifion os ydynt yn dymuno cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg neu os ydynt am gael unrhyw ddogfennaeth yn Gymraeg, i adael i aelod o'r dderbynfa wybod ac fe ellir trefnu hyn.	Stephanie Harrison (Rheolwr Practis)	Eisoes wedi'i weithredu
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn amrywiaeth o fformatau (e.e. hawdd ei ddeall, print	4.2 Gwybodaeth i gleifion Rheoliad 13(1)(a) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru)	Mae arwydd yn cael ei arddangos yn y dderbynfa yn cynghori cleifion i roi gwybod i ni os oes ganddynt anghenion cyfathrebu neu os oes angen	Stephanie Harrison (Rheolwr Practis)	Eisoes wedi'i weithredu

bras) i sicrhau bod y cleifion hynny ag anawsterau cyfathrebu yn gallu cael mynediad at yr wybodaeth.		gwybodaeth arnynt mewn fformat arall, e.e. print bras. Mae gennym chwyddwydr ar gael i gleifion ei ddefnyddio os dymunant.		
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ystyried hygyrchedd y practis i'r rhai ag anawsterau hygyrchedd gan fod trothwy bach wrth fynd i mewn i'r practis.	2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch. Rheoliad 15(2) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (2017)	Gall cleifion na allant gael mynediad i'r adeilad drwy'r fynedfa flaen gael mynediad drwy'r cefn drwy ddefnyddio'r ramp. Mae arwydd wedi'i osod wrth y fynedfa flaen i dynnu sylw cleifion at hyn. Mae'r cynlluniau adnewyddu/ymestyn yn cynnwys newidiadau i'r fynedfa flaen i ddileu'r angen i gleifion orfod camu dros y trothwy bach i mewn i'r practis	Andrew Sullivan (Rheolwr Cofrestredig)	Yr arwydd – gweithredwyd Newidiadau i'r fynedfa flaen: 6 i 12 mis
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol: Nad yw eitemau clinigol yn cael eu storio yn ardal y gegin yn y practis Na chaiff eitemau eu storio o flaen allanfeydd tân/dihangfeydd tân	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a 2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch Rheoliad 22(2)(a) a 22 (4)(b) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Nid yw eitemau clinigol bellach yn cael eu storio yn ardal y gegin nac o flaen allanfeydd tân. Bydd man storio dynodedig ar gyfer eitemau o'r fath unwaith y bydd gwaith ymestyn yr adeilad yn mynd rhagddo.	Stephanie Harrison (Rheolwr Practis)	Eisoes wedi'i weithredu
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod digon o swyddogion cymorth cyntaf ar gael yn y practis yn ystod oriau gweithredu.	7.1 Y gweithlu Rheoliad 17 (1)(a) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Mae ail aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf ffurfiol ac felly mae gennym bellach ddau swyddog cymorth cyntaf cymwys yn y practis	Stephanie Harrison (Rheolwr Practis)	Eisoes wedi'i weithredu
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gwiriadau manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y gweithlu plant ac oedolion yn cael eu cynnal yn rheolaidd ar gyfer yr	7.1 Y gweithlu Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Atodlen 3 Rhan 1	Roedd un aelod o staff gweinyddol/anghlinigol ond wedi cael gwiriad safonol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Yn dilyn cyngor gan AGIC, rydym wedi trefnu gwiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer yr	Stephanie Harrison (Rheolwr Practis)	Pythefnos

holl staff sy'n dod i gysylltiad uniongyrchol â chleifion.		aelod hwn o staff. Roedd yr holl staff arall eisoes wedi derbyn gwiriadau manylach. Mae gennym bellach bolisi ar waith i sicrhau bod gwiriadau manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu hail-wneud yn rheolaidd		
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl staff yn cael hyfforddiant cynnal bywyd sylfaenol bob blwyddyn.	7.1 Y gweithlu Rheoliad 31 (3)(a) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Mae'r staff yn derbyn hyfforddiant cynnal bywyd sylfaenol yn fewnol yn flynyddol. Mae'r practis ar gau i gleifion yn ystod yr hyfforddiant hwn. Cynhaliwyd yr hyfforddiant eleni ar 29/6/22 ac roedd yr holl staff yn bresennol ar gyfer yr hyfforddiant.	Stephanie Harrison (Rheolwr Practis)	Eisoes wedi'i weithredu
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gynnal yr archwiliad rhoi'r gorau i ysmegu eto fel rhan o amserlen archwilio bresennol y practis.	3.3 Gwella Ansawdd, ac arloesi. Rheoliad 16(1)(a) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (2017)	Cynhaliwyd archwiliad rhoi'r gorau i ysmegu yn 2019, ond byddwn yn sicrhau bod yr archwiliad hwn yn cael ei gynnal eto yn rheolaidd.	Stephanie Harrison (Rheolwr Practis)	6 i 12 mis
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau nad yw cypyrddau storio yn achosi perygl i iechyd a diogelwch y staff.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch Rheoliad 22 (2) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Bydd y cwpwrdd a'r silffoedd yn cael eu tacluso a'u trefnu. Bydd cynhyrchion hylendid y geg y gellir eu prynu yn cael eu rhoi yn y dderbynfa, nes y bydd lle storio pwrpasol ar gael yn dilyn y gwaith o ymestyn yr adeilad.	Stephanie Harrison (Rheolwr Practis)	Wythnos
Rhaid i'r rheolwyr cofrestredig sicrhau bod diffoddwyr tân yn cael eu storio'n ddiogel a'u bod wedi'u cysylltu'n briodol â'r wal.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch Rheoliad 22 (4)(a) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Mae cwmni Blackwood Fire wedi cysylltu unrhyw ddiffoddwyr tân a oedd yn sefyll yn rhydd, â'r wal	Andrew Sullivan (Rheolwr Cofrestredig)	Eisoes wedi'i weithredu

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): **Andrew Sullivan**

Swydd:

Dyddiad:

Rheolwr Cofrestredig

13/7/22